***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 29

# Gorchymyn Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Arbed a Throsiannol) 2015

**Darpariaethau arbed a throsiannol**

**4.**—(1) Er gwaethaf cychwyn paragraff 3 o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf 2014—

(a) mae Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000(**1**) yn parhau i gael effaith hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 33, 35, 36 a 37 o Ddeddf 2014;

(b) mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000(**2**) yn parhau i gael effaith hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 10 a 13 o Ddeddf 2014;

(c) mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001(**3**) yn parhau i gael effaith hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 26 ac 28 o Ddeddf 2014;

(d) mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002(**4**) yn parhau i gael effaith hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau drwy arfer eu pwerau o dan adran 12 o Ddeddf 2014;

(e) mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005(**5**) yn parhau i gael effaith hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 17 a 19 o Ddeddf 2014;

(f) mae Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010(**6**) yn parhau i gael effaith hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 14 a 15 o Ddeddf 2014; ac

(g) mae Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011(**7**) yn parhau i gael effaith hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau drwy arfer eu pwerau o dan adran 23 o Ddeddf 2014.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad at Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn y gorchmynion a'r rheoliadau a nodir ym mharagraff (1) i gael ei ddehongli fel cyfeiriad at Gyngor y Gweithlu Addysg.

(**1**) O.S. 2000/1941 (Cy. 139).
(**2**) O.S. 2000/1979 (Cy. 140).
(**3**) O.S. 2001/1424 (Cy. 99).
(**4**) O.S. 2002/326 (Cy. 39).
(**5**) O.S. 2005/1818 (Cy. 146).
(**6**) O.S. 2010/2710 (Cy. 227).
(**7**) O.S. 2011/2940 (Cy. 316).